# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 15 Mai 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16 Mai 2023 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23 Mai 2023 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg)

**PWNC** Penderfyniad terfynol ar y cynnig i ehangu safle Ysgol Chwilog a fyddai'n cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddisgyblion o 1 Medi 2023 ymlaen yn dilyn cyfnod gwrthwynebu statudol.

**PENDERFYNIAD –**
Cymeradwyo y cynnig i ehangu safle Ysgol Chwilog a fyddai'n cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddisgyblion o 1 Medi 2023 ymlaen.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet : | Cyng. Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg) |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Cynorthwyol: Cynradd) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 15 Mai 2023 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : |  |

1. **Pwnc :**

Penderfyniad terfynol ar y cynnig i ehangu safle Ysgol Chwilog a fyddai'n cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddisgyblion o 1 Medi 2023 ymlaen yn dilyn cyfnod gwrthwynebu statudol.

2. **Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cymeradwyo y cynnig i ehangu safle Ysgol Chwilog a fyddai'n cynyddu capasiti yr ysgol o 65 i 95 o ddisgyblion o 1 Medi 2023 ymlaen.

3. **Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn dilyn cwblhau'r drefn statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog o 65 i 95 o ddisgyblion o 1 Medi 2023 ymlaen, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, mae angen i'r Aelod Cabinet Addysg gymeradwyo gweithredu'r cynnig yn ffurfiol er mwyn galluogi'r Adran Addysg i wneud addasiadau i'r ysgol er mwyn cynnig lle i fwy o ddysgwyr.

4. **Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth Cabinet ar 24 Ionawrt 2023 cyhoeddwyd rhybudd statudol ar y cynnig ar 8 Chwefror 2023 gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 8 Mawrth 2023 a ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig.

O ganlyniad, argymhellir cymeradwyo y cynnig yn derfynnol a chaniatau i addasu Ysgol Chwilog er mwyn cynyddu'r capasiti.

5. **Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

6. **Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gorff llywodraethol Ysgol Chwilog a'i Aelod Lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgol i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn dalgylch naturiol yr ysgol.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg, Llywodraeth Cymru i geisio ymateb i sefyllfa Ysgol Chwilog a dwy ysgol arall, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg). Yn dilyn cyflwyno cais achos fusnes i Lywodraeth Cymru derbyniwyd cadarnhad yn Ionawr 2023 fod y cais am gyllid cyfalaf ar gyfer y gwaith o addasu Ysgol Chwilog er mwyn cynyddu'r capasiti wedi bod yn llwyddiannus.

Gan fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn '*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25%'* ac y bydda ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65 presennol, roedd angen cynnal proses statudol cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fyddai'n arwain at gynyddu capasiti'r ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2022 bu i'r Cabinet gymeradwyo cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

**Ymgynghoriad statudol**

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 19 Hydref 2022 a 30 Tachwedd 2022, gan ddilyn gofynion a chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018),

Derbyniwyd 18 ymateb i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad.

Cyflwynwyd adroddiad ar yr ymgynghoriad i Cabinet y Cyngor ar 24 Ionawr 2023. Yn dilyn ystyried yr adroddiad bu i Cabinet Cyngor Gwynedd gymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i ehangu safle'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol.

## 7. Asesiadau effaith

Cynhaliwyd yr asesiadau effaith canlynol ar gychwyn y prosiect gan eu haddasu yn ôl y galw:

- Cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol
- Llesiant
- Y gymuned, ansawdd a safonau addysg a threfniadau teithio

Gellir gweld copi o'r asesiadau diweddaraf yn **Atodiad A.**

## 8. Sylwadau Swyddogion Statudol

**Prif Swyddog Cyllid** – Gallaf gadarnhau fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo grant cyfalaf er mwyn ymgymryd â'r gwaith yma. Nid oes gennyf wrthwynebiad rhag symud ymlaen i weithredu'r penderfyniad a geisir.

**Swyddog Monitro** – Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Aelod Lleol** - Dim sylw wedi ei dderbyn

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cynyddu capasiti Ysgol Chwilog |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Cynyddu gofod Ysgol Chwilog er mwyn sicrhau digon o le i'r dysgwyr presennol ac ymateb i ragamcanion twf ym mhoblogaeth plant yn nalgylch yr ysgol i'r dyfodol |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

| |
|---|
| Gareth Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg) |

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| Mehefin 2022 (fersiwn 1)<br>Rhagfyr 2022 (fersiwn 2)<br>Mawrth 2023 (fersiwn 3) |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Adran Addysg Cyngor Gwynedd<br><br>Staff, llywodraethwyr, rhieni a phlant fydd yn rhan o'r ymgynghoriad |

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi cyfathrebu'r bwriad gyda'r ysgol dan sylw.

Rydym wedi trafod yr angen am gynnal trefn statudol gyda phennaeth Ysgol Chwilog a chyfathrebu'r angen gyda'r Corff Llywodraethol.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn Gorffennaf 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig gyda buddiolwyr Ysgol Chwilog er mwyn derbyn eu mewnbwn. Gwnaethpwyd hyn oherwydd fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn '*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.'*

Gan y bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65 sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma, rydym wedi cynnal trefn statudol ar y cynnig cyn gallu gwneud unrhyw addasiadau fydd yn arwain at gynyddu capasiti'r ysgol.

Bu inni ymgynghori gyda staff, rhieni, plant a'r gymuned ehangach yn Chwilog ac ysgolion cyfagos i dderbyn eu sylwadau ar gynyddu capasiti yr ysgol gan gynnwys eu sylwadau ar unrhyw effaith ar gydraddoldeb, y gymuned neu'r iaith Gymraeg.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod er mwyn caniatáu cyfle i partïon a diddordeb i wrthwynebu y cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad na sylwadau newydd ar y cynnig yn y cyfnod hwn.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn dilyn ymgysylltu gyda'r holl fuddeiliaid perthnasol yn ystod y broses ymgynghori statudol yn Chwilog derbyniwyd y sylwadau isod fel ymateb i'r asesiad effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol a gellir gweld ymateb y Cyngor iddynt:

1) *Nifer o rieni sy'n medru'r Gymraeg yn dymuno peidio ei siarad a'u plant. Rhai o'r plant yn cyrraedd yr ysgol, gyda Chymraeg annigonol i allu ymdoddi i fewn i lif naturiol yr ysgol. Oes felly angen dosbarth arall er mwyn gwella Cymraeg y plant hyn fel nad yw eu diffygion hwy yn cael effaith negyddol ar ddosbarthiadau y rhai sy'n meddu'r Gymraeg?*

Mae Cylch Meithrin Chwilog wedi ei leoli yn festri Capel Uchaf, gyferbyn ag Ysgol Chwilog. Mae'r Cylch Meithrin wedi derbyn canmoliaeth yn ddiweddar o ran eu darpariaeth, ac maent yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg i blant meithrin cyn-oed ysgol drwy ddulliau trochi cynnar, sydd o gymorth wrth i'r plant drosglwyddo maes o law o'r Cylch Meithrin i'r Dosbarth Meithrin yn Ysgol Chwilog.

At hyn, mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau Iaith wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrddyfodiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrando y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliaeth Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.

Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif.

2) *A yw hi'n amser i ddynodi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg, er mwyn gwarchod buddiannau?*

Mae'r drefn genedlaethol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi dod i rym ers Medi 2022. Yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru ar y drefn gategoreiddio, ynghyd â gofynion Polisi Iaith Addysg Gwynedd, mae ysgolion cynradd Gwynedd, gan gynnwys Ysgol Chwilog, yn disgyn i Categori 3 Cyfrwng Cymraeg, gan fod y meini prawf yn adlewyrchu ein polisi iaith addysg presennol o ran darpariaeth cwricwlwm ac iaith weinyddol ein hysgolion, sef ysgol ble'r Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol, ac ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun

cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

3) *Cyhyd â bod yr ysgol yn parhau i gynnig y Gymraeg fel iaith gyntaf, nid wyf yn ystyried hyn yn bryder.*

Bydd Ysgol Chwilog yn parhau i gynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith Addysg Gwynedd.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i'r ysgol, aelodau lleol, a'r cyrff llywodraethol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgol i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn y dalgylch.

Cyflwynwyd cais am *Grant Cyfalaf y Gymraeg* Llywodraeth Cymru i greu dosbarth ychwanegol yn yr ysgol er mwyn ymateb i'r sefyllfa, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol.

### 2.5 Oes yna unrhyw bylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae'r holl sylwadau dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriadau wedi eu cynnwys yn yr asesiadau.

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | dim | O safbwynt hil, nid oes tystiolaeth y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd pob plentyn yn derbyn yr un addysg a chyfleoedd beth bynnag yw eu hil neu chenedligrwydd. |
| **Anabledd** | dim | Nid oes tystiolaeth y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd yr Uned yn cynnwys mynediad hygyrch |

| | | |
|---|---|---|
| | | addas i bob plentyn, o safbwynt addasrwydd gweddill adeilad Ysgol Chwilog, bydd anghenion unrhyw blentyn gydag anabledd yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg |
| **Rhyw** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Oedran** | Positif | Bydd y newid yn golygu mwy o lefydd yn yr ysgol ar gyfer holl blant y dalgylch i'r dyfodol. Heb y newid mae'n debygol y byddai rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | dim | Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif / negyddol / dim | Ddim yn berthnasol |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned yn Chwilog a'r ardal ehangach.<br><br>Mae Chwilog yn ardal o arwyddocâd ieithyddol, gyda dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Yn ddiweddar, gwelwyd datblygiad stad o dai marchnad agored yn y pentref sydd wedi arwain at nifer o deuluoedd ifanc Cymraeg eu hiaith yn symud i fyw i'r pentref, gan arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr sydd yn dewis mynychu eu hysgol leol, sef Ysgol Chwilog. Yn sgil datblygiad y stad dai yma, dwy stad dai arall arfaethedig, ynghyd ac ail-agor tafarn leol Y Madryn gan wŷr busnes lleol, mae yna bellach fwrlwm o weithgareddau cymunedol Cymraeg yn y pentref, sydd yn fodd o sicrhau gobeithio y bydd Chwilog yn parhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | ardal o arwyddocâd ieithyddol, sef ardal gyda dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg am flynyddoedd i ddod.<br><br>Er mwyn cefnogi newydd-ddyfodiaid i ymdoddi i'r gyfundrefn addysg a'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau Iaith wedi eu lleoli ar draws y Sir, gan gynnwys un yn Nwyfor, sy'n derbyn hwyrddyfodiaid sy'n cyrraedd ysgolion lleol fel Ysgol Chwilog, ac mae Penaethiaid ac athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrando y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliaeth Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.<br><br>Felly mae'r gwasanaeth yma ar gael i gynnig cymorth i'r plant hynny sydd angen gwella eu Cymraeg, ac i ysgolion sydd angen cymorth gyda throchi dysgwyr yn y prif lif. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Drwy gynyddu capasiti Ysgol Chwilog byddwn yn sicrhau llefydd i holl blant oed cynradd yn eu hysgol leol beth bynnag yw eu cefndir economaidd – gymdeithasol. Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn creu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y gymuned. Heb y newid mae'n debygol y byddai rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti, gallai hyn greu anfantais economaidd 'gymdeithasol i rai plant a theuluoedd. Mae sicrhau gofod digonol yn yr ysgol leol, yn fodd o sicrhau fod y gwasanaeth mae'r teuluoedd eu hangen o fewn eu cymuned leol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a**

**pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Bydd dyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn parhau yn sgil y cynnig. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Bydd cynyddu capasiti yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch yn eu hysgol leol. Bydd hyn yn fodd o sicrhau fod holl blant y dalgylch yn gallu derbyn addysg yn eu cymuned leol, gan felly fod yn fodd o hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i holl blant y dalgylch a'r gymuned. Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgol sydd yn addysgu plant ynglŷn â hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Bydd trefniadau presennol yr ysgol yng nghyd-destun hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn parhau yn sgil y cynnig.<br><br>Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Bydd cynyddu capasiti yr ysgol yn fodd o feithrin perthnasau da drwy sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch gael mynediad i'w hysgol leol. Bydd hyn yn fodd o sicrhau fod holl blant y dalgylch yn gallu derbyn addysg yn eu cymuned leol, gan felly fod yn fodd o feithrin perthnasau da rhwng y plant â'i gilydd, ynghyd a rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgol sydd yn addysgu plant ar sut i feithrin perthynas dda. Bydd trefniadau presennol yr ysgol yng nghyd-destun meithrin perthnasau da yn parhau yn sgil y cynnig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Ni rhagwelir y bydd ychwanegu dosbarth a chynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn newid y ffordd mae'r ysgol yn ymdrin a'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd, a bydd yr ysgol yn parhau i fanteisio ar pob cyfle i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned.

Bydd cynyddu capasiti'r ysgol yn fodd o sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch yn eu hysgol leol, ac yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol yn Ysgol Chwilog rhoddwyd cyfle i fuddiolwyr gynnig sylwadau ar unrhyw effaith y gallai'r argymhelliad ei gael ar yr iaith Gymraeg gan ymateb i unrhyw bryderon fydd yn cael eu datgan.

Bydd cynyddu capasiti'r ysgol yn fodd o sicrhau llefydd i holl blant y dalgylch yn eu hysgol leol, ac yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Drwy gynyddu capasiti Ysgol Chwilog byddwn yn sicrhau llefydd i holl blant oed cynradd yn eu hysgol leol beth bynnag yw eu cefndir economaidd – gymdeithasol. Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn creu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y gymuned. Heb y newid mae'n debygol fydda rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti gallai hyn greu anfantais economaidd 'gymdeithasol i rai o'r plant a theuluoedd. Byddai'r plant hyn hefyd yn methu allan ar y cyfle i gymysgu gyda chyfoedion yn eu

| |
|---|
| cymuned leol yn ystod oriau ysgol ac fe all hyn arwain at anawsterau creu cylch ffrindiau a manteisio ar wasanaethau yn eu cymuned. Mae sicrhau gofod digonol yn yr ysgol leol, yn fodd o sicrhau fod y gwasanaeth y mae'r teuluoedd ei angen o fewn eu cymuned leol. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Yn sgil y cynnig, bydd yr ysgol yn parhau i weithredu yn unol â'i pholisïau a disgwyliadau'r Adran Addysg i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Rhagwelir y bydd cynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn cael effaith bositif ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac economaidd-gymdeithasol oherwydd rhagwelir y bydd yn creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch gan greu seilwaith gadarn ar gyfer y gymuned a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned. Bydd plant y dalgylch yn gallu derbyn addysg yn eu cymuned, gan gyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol. Heb y newid mae'n debygol fydda rhai plant y dalgylch yn gorfod teithio ymhellach a gadael eu cymuned leol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion eraill unwaith y bydd Ysgol Chwilog wedi cyrraedd ei chapasiti gallai hyn greu anfantais economaidd 'gymdeithasol i rai o'r plant a theuluoedd. Byddai'r plant hyn hefyd yn methu allan ar y cyfle i gymysgu gyda chyfoedion yn eu cymuned leol yn ystod oriau ysgol ac fe all hyn arwain at anawsterau creu cylch ffrindiau a manteisio ar wasanaethau yn eu cymuned. Mae sicrhau gofod digonol yn yr ysgol leol, yn fodd o sicrhau fod y gwasanaeth y mae'r teuluoedd ei angen o fewn eu cymuned leol. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Ni ragwelir y bydd cynyddu capasiti Ysgol Chwilog yn cael effaith sylweddol negyddol ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg nac economaidd-gymdeithasol gan y bydd yr ysgol yn parhau i wasanaethu ei dalgylch yn union fel ac y mae hi ar hyn o bryd. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Parhau |

| | |
|---|---|
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol byddwn yn parhau i fonitro ac yn gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn ôl y galw. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Does dim effaith negyddol wedi ei adnabod ar y cam yma. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Byddwn yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau bod y deilliannau'n bositif ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith negyddol. Bydd hyn yn digwydd mewn cydweithrediad â'r ysgol yn dilyn creu'r dosbarth ychwanegol a derbyn mwy o ddysgwyr i'r ysgol h.y o Medi 2023 ymlaen. |

# Adroddiad asesiad effaith llesiant cynyddu capasiti Ysgol Chwilog

## 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn: | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

## 1.1 Cyd-destun

Yn ystod Tymor yr Haf 2021 bu i gorff llywodraethol Ysgol Chwilog a'i aelodau lleol gysylltu efo'r Adran Addysg yn pryderu am ddiffyg capasiti'r ysgol i gyfarch y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr yn sgil datblygiadau tai o fewn ei ddalgylch naturiol.

Gwelwyd cyfle i gyflwyno cais am Grant Cyfalaf y Gymraeg i geisio ymateb i sefyllfa'r ysgol, gan becynnu'r cais o amgylch cymunedau o arwyddocâd ieithyddol (cymunedau dros 70% o siaradwyr Cymraeg).

Drwy gyfrwng y cais hwn, mae'r Adran Addysg yn awyddus i gefnogi datblygiadau economaidd, tai a mentrau cymdeithasol mewn cymuned o arwyddocâd ieithyddol yn y sir, drwy gynyddu capasiti'r ysgol mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil y datblygiadau hyn. O blethu'r holl elfennau adfywio cymunedol hyn yn gelfydd ynghyd, gall greu seilwaith cadarn ar gyfer y gymuned, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned.

Yn Chwefror 2022 derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru fod cais Adran Addysg, Cyngor Gwynedd wedi derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid cynnal proses statudol os yn '*ehangu safle ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig), a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion, o gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol. Wrth benderfynu ar gynnydd mewn capasiti, rhaid ystyried pob achos o ehangu ysgol sydd wedi digwydd ers y dyddiad priodol ynghyd â'r gwaith ehangu arfaethedig.*'

Gan y bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog yn cynyddu'r capasiti i 95, sydd yn gynnydd o dros 25% o'r 65, sef capasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol yn yr achos yma, cynhaliwyd trefn statudol ar y cynnig yn ystod Hydref – Tachwedd 2022.

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

| Cynyddu capasiti Ysgol Chwilog | |
|---|---|
| **Amcanion** | Manylion: |
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Bydd mwy o le yn yr ysgol. Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd yn cynnig gofod addas. Bydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu derbyn eu haddysg o fewn eu cymuned leol. |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.<br><br>Byddai'r cynnig yn golygu fod digon o le yn yr ysgol ar gyfer dysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas ar gyfer y niferoedd. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion.<br>Bydd ychwanegu dosbarth i Ysgol Chwilog hefyd yn gyfle i greu mwy o adnoddau newydd a mwy o le yn yr ysgol fydd yn gwella amgylchedd dysgu i'r holl blant a staff.<br><br>Mae Ysgol Chwilog wedi cael adroddiad Estyn cadarnhaol iawn (haf 2022), felly bydd holl blant y dalgylch yn gallu cael mynediad at addysg o'r radd flaenaf yn Ysgol Chwilog. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau fydd yn cefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned.<br><br>Mae Chwilog yn ardal o arwyddocâd ieithyddol, gyda dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Drwy gynyddu capasiti'r ysgol mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth yn sgil datblygiadau tai a datblygiad economaidd Y Madryn gall greu seilwaith cadarn ar gyfer y gymuned, gan greu'r amodau gorau un i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned. |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Byddai'r cynnig yn golygu fod digon o le yn yr ysgol ar gyfer dysgu holl blant eu dalgylch mewn dosbarthiadau addas ar gyfer y niferoedd. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion. | Dim effaith. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. | Dim effaith |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Byddai addasu'r ysgol er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn golygu y byddai'r disgyblion yn gallu cael addysg yn eu cymuned. | Dim effaith |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae niferoedd presennol a rhagamcanion niferoedd disgyblion yn ogystal â datblygiadau tai lleol yn dangos yr angen am gynyddu capasiti yn yr ysgol a bydd y cynnig yn sicrhau digon o lefydd ar gyfer tymor byr a hir. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion? | Bydd gweithredu'r argymhelliad yn helpu'r Cyngor i osgoi problemau diffyg gofod yn yr ysgol. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Bu i'r awdurdod gychwyn y broses o adolygu sefyllfa'r ysgol yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgol unigol yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol megis rhieni, staff a'r gymuned ehangach yn Chwilog. Roedd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys ymgynghoriad penodol gyda phlant a phobl ifanc. Bu I'r awdurdod gydymffurfio â'r gofynion ymgynghori a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant y dalgylch yn cael eu haddysgu mewn ysgol addas eu maint ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Byddai addasu'r ysgol er mwyn sicrhau digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn golygu y byddai'r disgyblion yn gallu cael addysg yn eu cymuned.

Rhagwelir y bydd creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch yn eu hysgol leol yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned.

# Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned, Ansawdd a Safonau Addysg, a Threfniadau Teithio

# Ysgol Chwilog

- Rhagfyr 2022

# Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned

Mae Ysgol Chwilog wedi ei lleoli ynghanol pentref Chwilog, sydd rhwng Y Ffôr a Chricieth yng Ngwynedd. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys y pentref ac ardal gyfagos, sydd wedi ei leoli rhwng dalgylchoedd Ysgolion Bro Plenydd (Y Ffor), Ysgol Abererch, Ysgol Llanystumdwy ac Ysgol Llangybi.

Mae Ysgol Chwilog wedi ei lleoli yn Nwyfor ac yn ward Llanystumdwy. Dengys data (cyfrifiad 2011) fod poblogaeth ward Llanystumdwy yn 2,080.

## 1.1 Yr Economi

Mae 1,460 o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed yn byw o fewn ward Llanystumdwy. Mae 1,020 yn weithgar yn economaidd. Mae 440 o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 65 o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (13.7%) yn gweithio yn y maes Addysg.

Mae nifer o fusnesau yn weithredol yn y pentref, gan gynnwys tafarndy, swyddfa bost, a pharc carafanau.

## 1.2 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Chwilog, gan gynnwys;

- Cylch Meithrin
- Ysgol Sul
- Aelwyd Chwilog
- Merched y Wawr
- Cymraeg i Oedolion yn Y Madryn
- Y Gymdeithas
- Clwb Snwcer
- Eisteddfod Flynyddol
- Gweithgareddau Ffitrwydd
- A gweithgareddau amrywiol eraill yn y Neuadd Goffa

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys Capel Siloh a Chapel Uchaf, Neuadd Bentref, Swyddfa Bôst, Cigydd, Tafarn a Pharc Chwarae Plant.

## 1.3 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | |
| **Aelwyd yr Urdd** | ✓ |
| **Dramâu** | |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | |
| **Bore/Noson Goffi** | ✓ |
| **Arwerthiant Cymunedol** | ✓ |
| **Llyfrgell Gymunedol** | |
| **Ymarfer Côr** | |
| **Cymraeg i Oedolion** | ✓ |
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | |

| | |
|---|---|
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | ✓ |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | |
| **Clwb Brecwast** | ✓ |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | |
| **Clwb Diddordeb Lleol** | |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 1.4 Crynodeb O'r Amrywiol Gyfleusterau Sydd Yn Y Cymunedau

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu am ardal yr ysgolion sydd o dan sylw:

| | |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned Neuadd Bentref** | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ |
| **Siop** | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | ✓ |
| **Swyddfa Bost** | ✓ |
| **Meddygfa/Fferyllfa** | X |
| **Llyfrgell** | X |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ |
| **Banc** | X |
| **Cartref Henoed** | X |
| **Canolfan Hamdden** | X |
| **Garej** | X |
| **Atyniad Twristaidd** | X |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 1.5 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | |
|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi** | ✓ |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | ✓ |
| **Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd** | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | ✓ |

***Ffynhonnell: Penaethiaid Mehefin 2022***

## 1.6 Amddifadedd

Mae Ward Llanystumdwy (sydd yn ardal ehangach nac arwynebedd daearyddol dalgylch Ysgol Chwilog) yn y 50% o wardiau lleiaf difreintiedig yng Nghymru (rheng 1,102 allan o 1,909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai (gweler y tabl isod).

Nodir fod ward Llanystumdwy o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.
Yn ogystal, mae ward Llanystumdwy o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Mae crynodeb isod o sut mae ward Llanystumdwy wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd.<br>1 = mwyaf difreintiedig<br>1909 = lleiaf difreintiedig** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Incwm | 1,475 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Cyflogaeth | 1,589 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Iechyd | 1,485 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Addysg | 1,460 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Mynediad i wasanaethau | 152 | ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1.339 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1,273 | ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig |
| Tai | 54 | ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig |

## 1.7 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn (Mai 2022)

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Chwilog gan arolygwyr Estyn.

*"Mae'r modd y mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn gryfder sylweddol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion yn eu Cymreictod yn hynod effeithiol. Mae'r ethos Cymraeg a Chymreig sy'n bodoli yn yr ysgol yn ymledu'n llwyddiannus i'r gymuned leol."*

*"Mae'r staff yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Yn yr ysgol mae nifer o bwyllgorau gweithgar sydd yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae eu cyfraniad at waith yr ysgol a'r gymuned yn werthfawr iawn. Maent yn hybu llais y disgybl a'u hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth."*

## 1.8 Asesiad O Effaith Debygol Ar Y Gymuned

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd greu meini prawf yn unol â argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad statudol derbyniwyd rhai sylwadau yn poeni am effaith y cynnydd yn niferoedd disgyblion ar nifer y ceir fyddai'n cludo'r plant i'r ysgol.<br><br>Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed rhwng y stadau a'r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.<br><br>Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Bydd cynyddu'r capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgol ar gyfer holl blant y dalgylch gan felly sicrhau addysg i'r plant yn eu cymuneda, fyddai'n fodd o wneud y gymuned yn fwy deniadol i deuluoedd a phlant oedran ysgol i aros neu symud i'r gymuned. | Positif |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Bydd cynyddu'r capasiti yn sicrhau digon o lefydd yn yr ysgol ar gyfer holl blant y dalgylch gan felly sicrhau addysg i'r plant yn eu cymunedau, fyddai'n fodd o wneud y gymuned yn fwy deniadol i deuluoedd a phlant oedran ysgol i aros neu symud i'r gymuned. | Positif |

## 2. CRYNODEB

Yn dilyn ystyried effaith y cynnig ar gymuned Ysgol Chwilog mae'n bosib y bydd cynyddu capasiti'r ysgol drwy ychwanegu dosbarth yn cael effaith negyddol ar nifer rhieni fydd yn dewis cludo plant i'r ysgol mewn ceir. Byddwn yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i'r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

Rhagwelir y bydd cynyddu'r capasiti yn creu digon o le i holl blant cynradd y dalgylch gan greu seilwaith gadarn ar gyfer y gymuned a chreu'r amodau gorau i'r iaith Gymraeg a ffyniant y gymuned.

# Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg Ysgol Chwilog

## 1. YSGOL CHWILOG

Bu i Ysgol Chwilog gael ei harolygu gan Estyn ym Mai 2022. Bu i Estyn newid eu ffordd o arolygu ysgolion yn 2022 a bellach nid ydyw eu hadroddiadau yn cynnwys graddau crynodol e.e. 'Rhagorol', 'Da', 'Digonol' ac anfoddhaol. Bellach, mae eu hadroddiadau yn canolbwyntio ac yn manylu ar ba mor dda mae darparwyr yn helpu plentyn i ddysgu. Golyga hyn nad yw bellach yn bosibl dangos asesiad o effaith tebygol y cynnig ar bum maes arolygu perthnasol Estyn fel sydd yn cael ei nodi yn 'Ansawdd a safonau mewn addysg' yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Gellir gweld yr adroddiad llawn drwy ddilyn y linc isod:
Adroddiad arolygiad Y.G. Chwilog 2022 (llyw.cymru)

Fel y gwelir o adroddiad Estyn mae nifer o gryfderau gan Ysgol Chwilog gan gynnwys canmoliaeth o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan y dysgwyr.

Mae adroddiad Estyn hefyd yn cyfeirio at elfennau i'w gwella gan gynnwys y defnydd o TGCh ar draws gweithgareddau'r ysgol.

### 1.1 Asesiad o Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Bydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad statudol bu i rhai nodi diffyg lle ac anaddasrwydd yr ysgol i dderbyn llawer mwy o blant.<br><br>Mae swyddogion o'r Adrannau Addysg ac Eiddo wedi ymweld ag Ysgol Chwilog i gynnal asesiad addasrwydd er mwyn adnabod unrhyw addasiadau sydd angen eu gwneud i sicrhau amgylchedd addas a digonol ar gyfer anghenion yr ysgol. | Positif |

| | | |
|---|---|---|
| | O ganlyniad, gallwn gadarnhau y byddwn yn ymateb i'r angen i addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad. | |
| Arweiniad a chymorth gofal | Dim newid | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Bydd ychwanegu dosbarth yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir. | Positif |

## 2. CASGLIAD

Yn dilyn cynnal asesiad effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg, rydym o'r farn y byddai cynyddu capasiti yr ysgol drwy ychwanegu dosbarth ac addasu adnoddau drwy unai eu lleoli fel rhan o'r Uned newydd neu drwy gynnal addasiadau i'r prif adeilad yn sicrhau digon o le ar gyfer addysgu holl blant y dalgylch mewn dosbarthiadau addas o'r maint cywir.

# Asesiad Effaith ar Drefniadau Teithio

## 1. POLISI CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, mae cludiant am ddim ar gael:

- ar gyfer dysgwyr sy’n byw 2 filltir neu ymhellach o’r ysgol yn eu dalgylch, neu’r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin).
- pan fo dysgwyr sy’n derbyn addysg gynradd yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch ac nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae’r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn.

Mae’r polisi cludiant i’w weld yn y llawlyfr i rieni:
(https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Talu-eich-ysgol/Gwybodaeth-i-Rieni-2019-20-2.pdf)

## 2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

Ar hyn o bryd mae 4 disgybl yn derbyn cludiant am ddim i Ysgol Chwilog.

## 3. SYLWADAU YN DILYN YMGYNGHORIAD STATUDOL

Yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad statudol derbyniwyd rhai sylwadau yn poeni am effaith y cynnydd yn niferoedd disgyblion ar nifer fydd o bosib yn defnyddio ceir i gludo plant i’r ysgol.

Gan fod y stadau tai newydd, sef prif yrrwr yr angen am lefydd ychwanegol yn Ysgol Chwilog, wedi eu lleoli o fewn pellter rhesymol i'r ysgol, a bod llwybrau troed rhwng y stadau a’r ysgol, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru, byddwn yn annog dysgwyr i ddefnyddio teithio llesol i'r ysgol e.e. cerdded a beicio. Byddai gwneud hyn yn sicrhau na fyddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr yn arwain at gynnydd yn nefnydd ceir i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i’r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.

## 4. CASGLIAD

Gan ein bod yn edrych ar gynyddu capasiti yr ysgol er mwyn ymateb i ragamcanion cynnydd o fewn y dalgylch, a’n rhagweld bydd cartrefi mwyafrif y plant o fewn 2 filltir i'r ysgol, gan gymryd y niferoedd presennol sy’n derbyn cludiant am ddim fel meincnod, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar drefniadau teithio o ganlyniad i gynyddu capasiti yr ysgol dan sylw. Serch hynny, byddwn yn comisiynu arolwg er mwyn deall y problemau a grëir o ganlyniad i ddefnyddio ceir i gludo plant i’r ysgol gan adnabod ac asesu unrhyw ffyrdd i oresgyn y problemau.